# Ymateb Sefydliadol

**Teitl yr adroddiad:** Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau – Cyngor Sir Ynys Môn

**Dyddiad cwblhau:** 3.1.24

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad Cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y camau arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | **Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch-arweinwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.** | **Bydd uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn cytuno ar ddangosyddion y Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Mae'r data chwarterol a'r dadansoddiad ar dueddiadau yn gyfle i herio. Cyflwynir y Cerdyn Sgorio'n chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini, lle bydd aelodau etholedig yn cwestiynu a herio.**<br><br>**Mae dangosfyrddau data thematig allweddol wedi cael eu datblygu cyfochr â'r gwaith hwn, fel rhan o amcan tymor hir i ddod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata. Mae'r dangosfyrddau dechreuol sydd wedi cael eu datblygu yn cynnwys Sero Net a Thlodi. Mae'r data wedi'i gaffael gan amrywiaeth o ffynonellau mewnol ac allanol e.e., data o'r cyfrifiad, data o'r Cyfrifiad yn ôl wardiau ac ati.**<br><br>**Mae'r Awdurdod yn bwriadu gofyn i'w uwch arweinwyr pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt er mwyn deall pa mor dda mae gwasanaethau a pholisïau yn bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth.** | **Medi 2024** | **Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformio a Rhaglen** |
| **A2** | **Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau arfaethedig** | **Mae sawl ffynhonnell gwybodaeth eisoes yn cael eu darparu ar gyfer uwch arweinwyr ynghylch perfformiad e.e., adolygiadau gwasanaeth blynyddol, adolygiadau** | **Medi 2024** | **Rheolwr Cynllunio Corfforaethol,** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | blynyddol ar wasanaethau ariannol, y cerdyn sgorio data chwarterol, y broses hunan-arfarnu ac ati, ac mae'r cyfan yn canolbwyntio ar y ffordd mae'r Cyngor yn darparu.<br><br>Fel y nodwyd yn yr ymateb i A1 uchod, mae'r gwaith o ddatblygu dangosyfrddau wedi'i groesawu gan Uwch Arweinwyr, fel ffordd o adnabod data yn ogystal â darparu gwybodaeth mewn fformat sy'n cynnig ei hun i herio ymhellach. Mae hyn yn cefnogi barn y Cyngor i symud tuag at fod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata, sy'n defnyddio llai o naratif ac yn canolbwyntio mwy ar ddata a thueddiadau sy'n creu darlun clir mewn fformat cyson.<br><br>Mae creu'r Dangosfryddau dechreuol wedi annog llawer o frwdfrydedd a diddordeb, a'r her yw rheoli disgwyliad y brwdfrydedd hwnnw o fewn y capasiti sydd ar gael. Mae cydweithio gydag awdurdodau lleol eraill sydd wedi gwneud gwaith sylweddol – er bod ganddynt y capasiti i ddarparu – wedi bod yn werthfawr o ran y cynnydd mae'r Awdurdod wedi'i wneud gyda'r datblygiadau hyn.<br><br>Mae'r Awdurdod lleol yn bwriadu gofyn i'r uwch arweinwyr pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt er mwyn eu helpu y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar waith i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a chanlyniadau arfaethedig. | | Perfformio a Rhaglen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A3** | **Mae angen i'r Cyngor gael sicrwydd bod ganddo drefniadau cadarn i sicrhau ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu i uwch-arweinwyr sy'n ymwneud â safbwynt a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.** | **Mae trefniadau presennol ar gyfer casglu data yn cael eu rheoli ar lefel gwasanaeth, ond yn cael eu trefnu ar gyfer y ganolfan gorfforaethol er mwyn eu coladu. Ar hyn o bryd, mae'r ganolfan gorfforaethol yn adolygu data yn erbyn data blaenorol ac mae unrhyw anghysondeb, lefelau uwch/llai yn cael eu cyfeirio at wasanaeth a/neu eu gwirio drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chadw gan ffynonellau eraill.**<br><br>**Bydd sefydlu Dangosfryddau yn cryfhau trefniadau dilysu cywirdeb ac ansawdd.**<br><br>**Mae Archwilio Mewnol yn edrych yn gyson ar fesurau perfformio a'r data cysylltiedig mewn archwiliadau perthnasol, ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth. Bydd "Mater/Risg" yn cael ei godi mewn perthynas â data perfformiad gan Archwilio Mewnol, lle bo'n berthnasol, a bydd yn cael ei weithredu fel cam ar gyfer gwneud gwelliannau.**<br><br>**Mae'r Cyngor yn awyddus i fanteisio ar unrhyw gyfle fydd yn ei alluogi i ddysgu o arfer da eraill. Er enghraifft, yn ddiweddar mae wedi ymuno â Rhwydwaith Data Cymru, sydd newydd ei sefydlu, a dylai fod yn rwydwaith gwerthfawr ar gyfer rhannu a dysgu gan eraill.**<br><br>**Bydd gwasanaethau yn adolygu safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau drwy Fwrdd Ymgynghori a Chyfathrebu'r Cyngor.** | **Medi 2024** | **Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformio a Rhaglen** |